# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 253 Pris £1 Mis Ebrill 2023




## Cwm Doethi

# BAND PAID GOFYN




"Mae Dafydd Roberts wedi cael mwy o fandiau nag Elastoplast!" oedd geiriau hwyliog Martyn Geraint wrth gyflwyno un o fandiau Dafydd yng Nghlwb y Bont ychydig o flynyddoedd yn ôl. Ha ha, bron gwir y gair -ond dim cweit.

"Yn ogystal â'r gwmniaeth un o'r pethau braf mewn band ydy'r cyfle i gyfarfod cymaint o wahanol fathau o gynulleidfaoedd mewn amgylchiadau gwahanol." meddai Dafydd.

Dyna fel oedd hi'n ddiweddar wrth i'r band 'Paid Gofyn' ddiddanu cynulleidfa Te Prynhawn Gwyl Dewi mewn ystafell gyfyng yng Nghanolfan y Glowyr, Caerffili. Tipyn o wrthgyferbyniad i Fawrth 1af 2019 pan berfformiodd band blaenorol Dafydd 'Dim Problem' wrth ddathlu Cinio Gŵyl Dewi yng Nghastell Caerffili. "Ond dyna'r hwyl" meddai "Canu yn y Gymraeg a diddanu cynulleidfaoedd bach a mawr, Cymraeg a dwyieithog"



Mi ddaeth y band 'Paid Gofyn' i fodolaeth tua diwedd 2022. "Roedd canfod enw bachog yn her" meddai Dafydd "Cafodd enwau fel 'Dim Problem' 'Dai a Mr Mostyn' eu hystyried ond pan ddywedodd rhywun 'Paid Gofyn' imi dyna daro'r hoelen ar ei phen.

Pwysleisia Dafydd taw nid band twmpath mohonyn nhw, ond yn hytrach band i'ch diddanu ar noson allan, neu ar ddiwedd cinio neu ddathliad.

Y mae mae tipyn o alw wedi bod am eu gwasanaeth eisioes- canu gyda Al Lewis cyn y Nadolig, gwyliau yn Nhrefynwy a Pontypŵl a gig yn nhafarn boblogaidd Y Gwaelod cyn diwedd mis Mawrth. Ychwanegwch recordio yn Stiwdio 'Snake Mountain' i'r agenda ac fe welwch fod 'Paid Gofyn' yn reit brysur y dyddiau yma.

Mis nesa mi fydd y band yn teithio i'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Ceatharlach (Carlow) nid i gystadlu ond eto er mwyn cynnal nosweithiau o hwyl a chanu ac mi fyddant yn brysur iawn!

Byddant yn chwarae yn nhafarn Carpe Diem (tafarn y flwyddyn) nos Fercher, nos Iau a nos Wener yr ŵyl, Tully's bar prynhawn Mercher a Gwener ac yn safle newydd Yr Exchange ar brynhawn Iau.

Draw i'r stiwdio eto ym mis Mai, Ffiliffest a Theatr Beaufort ym mis Mehefin cyn teithio i'r gogledd ar gyfer gig wythnos Yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhen Llŷn.



Cymraeg yn bennaf yw iaith y band er y gallent gyflwyno ambell gân Saesneg yn ôl y galw.Maen nhw'n chwarae amrywiaeth o ganeuon traddodiadol, poblogaidd a newydd. Rhai yn gyfansoddiadau gan Dafydd ac eraill yn fwy cyfarwydd fel caneuon poblogaidd megis 'Brawd Houdini' a 'Blaenau Ffestiniog'.

Saith aelod sydd yn y band:-

Elin Haf yn gantores sy wedi cael profiad mawr o ganu mewn cynyrchiadau theatr megis 'Allo Allo 'a 'Hi Di Hi' yng nghylch Caerdydd.

Eleri Darkins yn delynores adnabyddus iawn o'r cwm.



Rob a Mered Dutt o Gaerffili ar yr ukulele bariton a drymiau.

Frank Blackmore yn chwaraewr bas profiadol wedi chwarae mewn sawl band.

Paul Snook o Dredegar – gitâr acwstig. Y mae Paul yn brysur yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn hyfforddi grwpiau cerddorol.

Dafydd Roberts – gitar drydan a chyfansoddi.

Er yn brysur, y mae'r band wastad yn barod i ystyried gigs newydd. Y mae tudalen Facebook a Safle We ganddyn nhw ond y ffordd orau i gysylltu gyda nhw yw trwy ebost – Dafgog@gmail.com

Paid Gofyn a chewch chi ddim byd. Gofynwch ac fe gewch!




*Shwt ma'r ardd in edrych?*

# Gardd Mawrth

Wel, am sioc i ni i gyd fore Mercher, Mawrth 8fed! Wedi gaeaf mwyn, dyma'r gwanwyn yn ein cyrraedd - ond yn dod ag eira i ni, a hynny'n ddigon sydyn hefyd. Bu proffwydi'r



tywydd yn ein rhybuddio y gallai eira ruthro lawr o'r gogledd, ond nid fi oedd yr unig un i wfftio'r rhybuddion hynny, rwy'n siwr. Ro'wn i'n argyhoeddiedig ei bod hi'n rhy hwyr yn y tymor i ni gael eira, a'n bod ni'n rhy bell i'r de i gael ein heffeithio lawer gan eira sy'n dod o'r gogledd...Ond agorais y llenni ar fyd gwyn y bore Mercher hwnnw: prawf pendant nad oes gobaith i fi lwyddo yn y busnes o ragweld y tywydd.



I ddweud y gwir, dyma'r ail rybudd y gaeaf hwn na ddylwn wfftio geiriau doeth proffwydi proffesiynol y tywydd. Pan gawson ni dywydd eithriadol o oer ar ddechrau Rhagfyr y llynedd, wfftiais eu rhybuddion y tro hwnnw hefyd - ac mae sgerbydau hanner dwsin o *geraniums* yn dal i'm hatgoffa am fy nghamgymeriad.

Mae eira'n llai o elyn na rhew, serch hynny. Er bod golwg hardd - a rhyfedd - ar flodau'r gwanwyn dan gwrlid o eira, mae hynny'n llai niweidiol iddynt na gafael haearnaidd y rhew. Mor frau yw golwg blodau porffor y *saffrwm,* ond er trymed y llwyth o eira arnynt, codson nhw eu pennau unwaith i'r eira glirio - a'r tro hwn ni pharhaodd hwnnw fwy na diwrnod, wedi'r cyfan. Gwnaeth y gwynt a'r glaw trwm a ddaeth ar ôl yr eira lawer mwy o ddifrod i'r blodau bach bregus hynny na'r eira ei hun. Ond mae cennin Pedr yn herio pob tywydd, beth bynnag, a blodau'r camelia yn wydn iawn hefyd.



Yr hyn oedd yn eironig am eira mis Mawrth oedd iddo gyrraedd mor hwyr yn y tymor a hynny pan oedd y gwanwyn ei hun yn hwyr. Roedd pob dim yn araf iawn eleni a blodau'r gwanwyn ddim ond newydd agor pan gawsant eu gorchuddio â chwrlid gwyn. Fel rheol mae'r ddwy goeden camelia sydd gen i yn drwch o flodau ym mis Chwefror: dim ond dechrau agor oeddynt ar ddechrau Mawrth.

Mae'n debyg i'r oerfel fis Rhagfyr diwethaf a phrinder glaw mis Chwefror atal datblygiad planhigion trwy'r wlad i gyd. Nawr, yn ôl arbenigwyr garddio (ac rwy'n barod i'w credu *nhw*, beth bynnag), gallwn ddisgwyl ffrwydrad o flodau ym mis Ebrill. Felly, wrth i'r dyddiau ymestyn, y tywydd feirioli, a'r glaw ddychwelyd, gallwn ddisgwyl cael ein swyno gan flodau ymhobman - dyna yw proffwydoliaeth yr arbenigwyr hynny.



Cawn weld! Ac os ydyn nhw'n gywir, dyma'r amser i ymweld â gerddi gwych Cefn Onn, gyda'u coed camelia ac *azalea* lliwgar ac aeddfed - ac i fwynhau pob llwyn bach blodeuog yn ein gerddi ni hefyd, wrth gwrs. Y *forsythia* yn ei flodau melyn llachar, y ceirios pinc, coch a gwyn, y *quince* coch ac oren - er bydd y saffrwm a'r cennin Pedr wedi gwywo, bydd enfys o liwiau o'n cwmpas y gwanwyn hwn - a dim rhagor o eira, gobeithio!

# Pwcadibo - neu be? 1

Yn y llun fe welwch Alun Booth, aelod hynaf Cymdeithas Hanes Diwydiannol Tŷ Rhydychen, Rhisga. Mae'n eistedd o flaen rhai o'r gwrthrychau cyntaf a gasglwyd gan y gymdeithas, ac mae'r rhain bellach yn sylfaen casgliad amrywiol ac eang ei hamgueddfa. Mae Alun ei hun yn 95, ac felly yn henach na rhai o wrthrychau'r amgueddfa! Mae'n cofio defnyddio peth o'r offer a arddangosir, yn cofio enwau'r teuluoedd fu'n byw yn y tai yn yr hen ffotograffau, ac mae llu o storïau difyr a doniol ganddo am y gymdogaeth.




Ond dau beth yn arbennig sydd wedi peri i fi fynd draw i'r amgueddfa bob bore Sadwrn, pan mae hi'n agor ei drysau i'r cyhoedd, er mwyn siarad gydag Alun pan fydd yn ddigon iach i ddod draw i gadw cwmni i ni. Un yw ei yrfa annisgwyl ac amrywiol, a'r llall - a'r un sydd yn fwyaf perthnasol i ddarllenwyr Cwm*ni* - yw bod Alun wedi ei fagu ar adeg pan oedd rhywfaint o Gymraeg i'w chlywed o hyd ym mhentrefi Cwm Sirhywi.

Cafodd Alun ei eni ar fferm Pant-y-ffynnon ar ochr y mynydd uwchben Ynysddu, ac er i'w deulu symud i fyw wedyn i bentref Brynawel, ac oddi yno i Wattsville, fe gadwon nhw eu cysylltiad gyda'r perthnasau oedd yn dal i ffermio. Dyna oedd y drefn ganrif yn ôl: byddai meibion y ffermydd yn cael gwaith yn y pwll, ond byddai un neu ddau yn dal i gadw'r fferm, a'r lleill yn helpu ar y tir pan oedd angen hynny. Felly, er taw glöwr oedd tad Alun, ffarmwr oedd brawd ei fam, ac mae Alun yn cofio fel y byddai hwnnw yn mynd i'r farchnad yng Nghasnewydd bob mis er mwyn cadw llygad ar y prisiau.

Tyddyn oedd gan y teulu, wrth gwrs - 27 erw yn unig - ac yno byddent yn cadw defaid, dau fochyn a phum buwch. Yn ôl Alun, roedd hynny'n ddigon i fwydo'r teulu, a byddai ei ewythr yn gwerthu unrhyw laeth oedd dros ben i'r cymdogion yn Ynysddu. Arian y llaeth oedd yr unig incwm a ddeuai o'r fferm ei hun, meddai Alun.




***Alun yn ei elfen***

Bywyd syml iawn felly, un hynafol yn ei hanfod, a'i arferion a'i batrymau yn hawdd iawn i blentyn eu deall. Ond roedd ambell i ddirgelwch hefyd - neu bethau oedd yn ddirgelwch i Alun pan oedd yn blentyn. Er enghraifft, byddai'n gwylio ei dad a'i ewythr yn symud llwyth o dail i un o'r caeau, gyda'r bwriad o'i daenu dros y pridd y diwrnod wedyn. Ond pan fyddai'n dilyn y dynion i'r cae hwnnw yn y bore, gwelai fod y gwaith wedi ei wneud yn barod. Yn yr un modd y byddent yn canfod wal wedi ei ail-godi dros nos - ac yn y blaen. Pan fyddai Alun yn gofyn am esboniad, yr unig ateb oedd "Pwcadibo", sef bod *pwca* (y bwgi bo yn nhafodiaith de-ddwyrain Cymru) wedi bod – wedi ymweld â'r fferm rywbryd rhwng y machlud a'r wawr a gwneud y gwaith drostynt.

Ond i fi - ac efallai i chi ddarllenwyr hefyd - ysbryd drwg yw'r pwca, rhyw goblyn neu ellyll sydd yn gwneud pethau cas ac yn codi ofn ar bobl, yn enwedig ar blant. Nid yw gwneud cymwynasau yn rhan o feddylfryd y pwca, ac mae gwasgaru llwyth o dail neu ail-godi darn o wal yn dipyn o gymwynas. Beth oedd y rheswm dros garedigrwydd anarferol (ac ymarferol) pwca Cwm Sirhywi?

Mae Alun yn ei henaint yn meddwl ei fod yn gwybod yr ateb, ac rwy'n cytuno gyda'i ddehongliad o'r dirgelwch. Tybed a oes esboniad gyda chi, ddarllenwyr Cwm*ni*? Fe gewch ateb Alun yn y rhifyn nesaf!

# Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd
**Eisteddfod Gylch Cwm Rhymni a Sir Gwent**

## Eisteddfod Gylch yr Urdd, Cwm Rhymni

**Unawd Blwyddyn 5 a 6**
1af Osian Jones, Y Castell 2ail Dafydd Roberts, Trelyn 3ydd Tomos Joseph, Y Castell

**Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4 (Dysgwyr)**
1af Poppy Veall, St Gwladys, Bargod 2ail Evie Waythe, St Gwladys 3ydd Willow Horton, Cwm Ifor

**Grŵp Llefaru Blwyddyn 6 ac Iau (Dysgwyr)**
1af Cwm Ifor, Caerffili 2ail Rhymni Uchaf 3ydd St Gwladys, Bargod

**Cyflwyno Alaw Werin Unigol, Blwyddyn 6 ac Iau**
1af Dewi Rowlands, Y Castell 2ail Sara Joseph, Y Castell 3ydd Anwen Blair, Cwm Gwyddon

**Llefaru Unigol, Blwyddyn 5 a 6 (Dysgwyr)**
1af Grace Finch, Cwm Ifor 2ail Grace Kelly, Cwm Ifor 3ydd Indie Thomas, St Gwladys

**Unawd Blwyddyn 2 ac Iau**
1af Darci-Rae Howarth, Ifor Bach 2ail Oliver Evans, Penalltau 3ydd Sofia Williams, Y Castell

**Llefaru Unigol Blwyddyn 2 ac Iau**
1af Betsan Rowlands, Y Castell 2ail Steffan Jones, Y Castell 3ydd Tesni Malson, Trelyn

**Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4**
1af Anna Matheson, Y Castell 2ail Dewi Rowlands, Y Castell 3ydd Bedwyr Roberts, Bro Allta

**Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6**
1af Osian Jones, Y Castell 2ail Mathew Madeley, Y Castell 3ydd Alfie Hughes, Penalltau

**Llefaru Unigol Blwyddyn 2 ac Iau (Dysgwyr)**
1af Anya Lamorte, Cwm Ifor 2ail Elisabeth Bessant-Evans, Cwm Ifor 3ydd Indie Powell, St Gwladys

**Parti Unsain Blwyddyn 6 ac Iau (YC)**
1af Cwm Gwyddon 2ail Parti Pyllau Glo, Penalltau 3ydd Ysgol Gymraeg Trelyn

## Eisteddfod Sir Gwent

**Unawd Pres Blwyddyn 6 ac Iau**
1af Tomos Joseph, Ysgol y Castell

**Unawd Piano Blwyddyn 6 ac Iau**
1af Beca Jones, Ysgol y Ffin 2ail Daniel Keevil, Ysgol y Fenni 3ydd Matthew Cook, Cwm Derwen

**Unawd Chwythbrennau Blwyddyn 6 ac Iau**
1af Harri ap Llwyd Dafydd, Bro Allta 2ail Mathonwy Jones, Ysgol y Fenni






Ysgol Gymraeg Caerffili yn ennill Cystadleuaeth Rhif 12
Dawns Greadigol Blwyddyn 6 a Iau

Gweler hanes Tlws Gwenllian ar dudalen 10 Ysgol y Castell

# Colofn y Dysgwyr

Mis Ebrill yn barod. Wel, mae amser yn hedfan! Ar y llaw arall, pan fyddwn ni'n aros i rywbeth ddigwydd, mae amser weithiau yn symud yn araf, araf. Wrth gwrs, dyw cyflymder amser ddim yn newid mewn gwirionedd, dim ond ein teimladau ni. Dyma syniad T Llew Jones yn y gerdd yma. Mae dau gloc yn ei gartref ac mae e'n meddwl bod un yn symud yn hamddenol a'r llall yn brysio. Ond yr un amser sydd ar wyneb y ddau!

**Y Ddau Gloc**

Mae cloc ar fur y gegin,
Cloc mawr fy hen dadcu,
A'i wyneb pres yn loyw
A'i gas o dderw du.

Nid ydyw byth yn brysio,
Un araf yw'r hen gloc,
Fel hyn y mae e'n cerdded
'Tic.......toc.......tic.........toc...........tic.....toc.'

Ar silff ben tân y parlwr
Mae pitw bach o gloc,
Mae ef drwy'r dydd yn brysio,
'Tic-toc-tic-toc-tic-toc.'

Mae'r cloc bach ffôl yn gwylltio,
A'r hen gloc mawr mor gall,
Ond pan ddaw'n amser gwely
R'un man mae'r naill a'r llall.

*cyflymder - speed* *teimladau - feelings* *hamddenol - leisurely* *pres - brass*
*gloyw - bright, shining* *cas - case, casing* *derw - oak* *pitw bach - tiny*
*gwylltio - to get excited , get wild* *mor gall - so sensible* *r'un man - in the same place*
*y naill a'r llall : both*

*Ann Lewis*

# Atgofion Ysgol Glyndŵr

"Ysgol Arbennig ar Sawl Lefel"



*Elin, Siwan (chwiorydd a merched Ifan R Williams), Mererid a Siân Ayres Jones*

Cynhyrchwyd cryno ddisg hynod ddiddorol i gofnodi aduniad gynhaliodd pedair o gyn-ddisgyblion Ysgol Glyndŵr a hynny yn adeiladau eu hen ysgol. Y pedair yn y llun yw Mererid, Elin, Siwan a Siân. Dyma lun o'r pedair ac isod ynghyd â dau o'r bechgyn oedd yn yr un dosbarth â nhw.

Roedden nhw'n cofio adeg lansio'r ysgol bod braidd neb yn gwybod amdani ac iddi greu cynnwrf mawr am ei bod mor radicalaidd ar adeg pan oedd rhaid ymladd dros bopeth Cymraeg a Chymreig. Maent yn cofio bod yr hen dŷ yn adeilad Fictorianaidd a "spooky", llwch yn codi oddi ar lawr y 'gym' a'r paent yn dod oddi ar rai o'r waliau. Er hynny teimlai'r merched bod yr adeilad yn eu gwneud i deimlo eu bod mewn man academaidd. Roedd un yn dweud ei bod yn gwneud iddyn nhw deimlo fel petai nhw mewn nofel. Un arall yn cyffelybu'r ysgol i St Trinians - heb y camymddwyn!

Roedd peth ansicrwydd ynglŷn â mynd i'r ysgol newydd hon ond yna, ar y llaw arall, buont ychydig yn ofnus o wynebu addysg cyfrwng Saesneg, ac yn enwedig wedi hynny pan gaeodd Glyndŵr. Wrth adael roeddent braidd yn ofnus o fynd at "dwr o blant". Achos dim ond chwech oedd mewn un dosbarth - tybed beth felly oedd y gost? Ond i Trefor Morgan y ddyletswydd oedd llwyddo yn ieithyddol nid yn ariannol.

Bu rhai mewn ysgol "ddwyieithog" yn ardal Pen-y- bont cyn dod i Ysgol Glyndŵr lle bu galw ar y rhieni eu cadw gartref mewn protest ar un adeg yn erbyn arfer yr awdurdod o yrru athrawon nad oedd yn medru'r Gymraeg yn athrawon cyflenwi yno. Dywedir fod peth drwg deimlad yn bod hefyd.



*O'r Chwith i'r Dde*
*Huw Lashmer, Elin Williams, Siwan Williams, Mererid John, Siân Jones, Michael Loveluck*

Ond doedd dim amheuaeth am ymroddiad Trefor a Gwyneth Morgan a oedd yn rhoi o'u gorau. Roedd y staff i gyd o'r un anian yn gweld bod y fenter yn ddyletswydd ac nid yn faich arnynt. Tebyg oedd ymroddiad eu rhieni gan eu bod i gyd yn genedlaetholwyr, a does a ŵyr faint oeddent wedi aberthu. Tystiai mwy nag un i fynychu'r ysgol roi iddynt lawer mwy o hyder yn eu Cymraeg a'u Cymreictod.

Roedd Gerallt Lloyd Owen yn athro ysbrydoledig gyda'i holl dalentau. Bu'n arbrofi arnynt drwy dynnu cartwnau a llunio comics a chylchgronau fel "Eryr" a storïau cowboi. Roedd y cyn-ddisgyblion yn flin na chawsant aros gydag e'n hirach. Wrth feddwl amdano'n cyfansoddi 'Cerddi'r Cywilydd' roedden nhw'n cofio am Dafydd Iwan yn ymweld â nhw yn yr ysgol. Roedd cof hefyd am groesawu Gerallt nôl i'r ysgol wedi gwyliau'r Sulgwyn 1969 a'i longyfarch am ennill Cadair Eisteddfod yr Urdd y flwyddyn honno, a'r cynnwrf o weld ei lun yn y 'Western Mail'.

Yn sicr teimlai'r criw hwn dristwch mawr pan gaeodd yr ysgol a hynny mor ddisymwth. Bu'n rhaid cau oherwydd marwolaeth Trefor Morgan oedd yn arwain at ddiffyg arian. Roedd y plant wedyn yn mynd ymlaen i ysgolion Ystalyfera neu Rydfelen.




*Bathodyn ysgol Nia*

Roedd Nia Beynon yn chwe mlwydd oed pan yn ddisgybl yn Ysgol Glyndŵr. Dyma rai o'r atgofion melys iawn sydd ganddi o fod yno, er mai byr oedd yr amser hwnnw yn dilyn marwolaeth Trefor Morgan.

"Rwy'n cofio'r bore cyntaf yn hollol glir- cwrddais â fy ffrind gorau'r bore hwnnw, sef Elen Owen, a'i chwaer Bethan Owen. Merched Dr John Owen, Porthcawl. Mae cofrestr o aelodau'r ysgol gen i o hyd.

"Cofiaf fod sesiynau canu yn bwysig o fewn ein cyfnod yn yr ysgol- fe ddysgon ni ganeuon traddodiadol Cymraeg megis 'Fflat Huw Puw,' 'Migldi Magldi' ac yn y blaen. Rydw i hefyd yn cofio gwiwerod yn chwarae ar lawnt yr ysgol ac roeddem yn gallu eu gweld o'n hystafell ddosbarth.

"Un diwrnod daeth cwmni teledu i'n ffilmio gan mai ni oedd yr unig ysgol yng Nghymru (am wn i!) na chafodd ddiwrnod o wyliau i ddathlu arwisgo'r Tywysog Siarl yn 1969.



"Pan laniodd dyn ar y lleuad, cawsom ein 'gwasgu' i mewn i ystafell Mrs Morgan, er mwyn cael cyfle i weld dyn yn creu hanes ar y teledu du a gwyn oedd yno.

"Roedden ni'n bwyta cinio mewn ffreutur fechan gyda bordydd hir a meinciau. Roedd yr athrawon yn bwyta ar fwrdd gerllaw. Mae casgliad o luniau gyda fi sy'n dangos yr hen gelfi yma ac roedd capel ar dir yr ysgol - yno fyddai ein cyngherddau Nadolig yn cael eu cynnal. Roedd atig (Cof plentyn!) yn gartref i'r gwersi celf - roeddwn i wrth fy modd yno!"

Efallai mai un o gyn-ddisgyblion mwyaf enwog Ysgol Glyndŵr yw'r Athro Laura McAllister yr academydd a fu'n gapten ar dîm pêl-droed menywod Cymru ac yn gapten ac wedi ennill 24 cap. Roedd ei chwaer Fiona hefyd yn yr ysgol. Erbyn hyn mae Laura yn athro Polisïau Cyhoeddus a Llywodraethu ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hi hefyd yn cyfrannu erthyglau i gylchgrawn dydd Sadwrn y Western Mail.

**Trefor Morgan**

Nid arian ond ei wario; - nid y llog
Ond y lles oedd ynddo;
Tros ryddid rhoes ei eiddo
A rhoi'n llwyr i'w ennill o.

Fe'i gwawdiwyd ond fe gododd, - ei ddewrder
A ddwrdiwyd, ond rhoddodd;
Rhoi i wlad a'i herlidiodd,
Rhoi'n ddrud, rhoi'i fywyd a'i fodd.

*Gerallt Lloyd Owen*

***Diolchiadau i Nia Beynon, Mererid Morgan, Mags Griffiths, Gareth Richards a 'Fy Nghawl fy Hun', Hunangofiant Gerallt Lloyd Owen***

# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

## Podlediad Y Castell a Gwobr NACE

Bu gwahoddiad i'r ysgol i fynychu cynhadledd genedlaethol NACE yng Nghaerdydd ym mis Mawrth i gyflwyno prosiect Podlediad Y Castell. O dan arweiniad Mr Gareth Robinson derbyniodd yr ysgol ail achrediad gan NACE, sydd yn cydnabod darpariaeth rhagorol ar gyfer dysgwyr MAT. Erbyn hyn mae Mr Robinson yn gweithio fel Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael yng Nghasnewydd, ond mae gwaith y Podlediad yn parhau. Sganiwch y cod QR isod er mwyn clywed podlediad diweddar gan ddisgyblion Blwyddyn 3.










## Eisteddfod Yr Urdd

Yn dilyn Eisteddfod ysgol lwyddiannus, aeth nifer o blant ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Cystadlodd pawb yn wych gyda nifer o unigolion yn dod yn 1af neu'n 2il.

Bu'n prynhawn emosiynol wrth i'r clwstwr cofio am Anne Evans a chyn Prifathrawes yr ysgol Miss Gwenllian Jenkins. Fe wnaeth gyn athrawes yr ysgol Mrs Anwen Hill cyflwyno tlws er côf am Gwenllian ar gyfer y gystadleuaeth llefaru unigol Bl5 a 6. Roedd yna foment hyfryd wrth iddi gyhoeddi taw Osian Jones un o ddisgyblion yr ysgol oedd enillydd y gystadleuaeth.

Wythnos yn hwyrach bu mwy o lwyddiant i'r ysgol wrth i'r tîm dawnsio disgo ennill y gystadleuaeth ranbarthol. Edrychwn ymlaen at weld y tîm yn cystadlu eto yn Llanymddyfri ym mis Mai.



## Plant Codi'n 3

Roedd yn hyfryd i groesawu 14 o blant bach Codi'n 3 i'r ysgol ym mis Ionawr. Maent wedi bod wrthi yn ymgartrefu a gwneud ffrindiau newydd draw gyda Mrs Evans, Mrs Roberts a gweddill staff Y Feithrin. Edrychwn ymlaen at groesawu mwy o blant ar ôl gwyliau Pasg.










## Llwyddiannau Chwaraeon

Mae timau'r ysgol yn mynd o nerth i nerth, gyda'r tîm athletau yn ennill cystadleuaeth 'Chwaraeon Caerffili' a'r tîm pêl-droed yn ennill cystadleuaeth ranbarthol Yr Urdd. Bydd y tîm rygbi hefyd yn cynrychioli ardal Cwm Rhymni yng nghystadleuaeth genedlaethol 10 bob ochr Undeb Rygbi Cymru. Mae llawer o blant yr ysgol yn mwynhau gwella'u lles corfforol a meddyliol bob wythnos yng nghlybiau allgyrsiol yr ysgol.

## Dydd Miwsig Cymru

Trefnwyd y dathliadau gan Ddreigiau'r Castell eto eleni.

Sganiwch y codau QR er mwyn gweld rhai o'n dysgwyr yn mwynhau'r diwrnod. Mae gennym sêr pop Cymraeg y dyfodol yn Y Feithrin!





## Gwaith y Pwyllgor Eco

Mae ein pwyllgor Eco wedi bod yn brysur yn yr ardal leol yn casglu sbwriel, gan ffocysu yn bennaf ar yr ardal o amgylch ein castell hyfryd. Rydym mor ffodus i gael golygfeydd a llwybrau bendigedig yn ein cymuned ac mae ein dysgwyr egwyddorol yn benderfynol o sicrhau bod yr ardaloedd yn aros yn lân, fel bod pawb yn gallu eu mwynhau. Yn anffodus nid oedd amser i fwydo'r gwyddau a hwyaid, ond rwy'n siŵr bydd amser yn ystod gwyliau Pasg i bawb i wneud!








## Eisteddfod Lenyddiaeth

Ar Ddydd Gŵyl Dewi groesawyd Mrs Delyth Jones yn ôl i'r ysgol i feirniadu gwaith llenyddol ein holl ddisgyblion. Uchafbwynt y bore oedd gorsedd y beirdd Blwyddyn 5 yn arwain y brif seremoni. Coronwyd Jessica Bateman am ei gwaith dychmygus a'i ymdrech cyson ac enillodd Lowri Mapp y gadair am ei hymson arbennig am drychineb Aberfan. Roedd y penderfyniad yn un anodd i Mrs Jones, ond bu'r frawddeg ganlynol o ymson Lowri yn creu effaith arni a chadarnhau ei phenderfyniad:

*'Y glaw, ffrind Cymru ond gelyn Aberfan'*







# Merched Y Wawr Mis Mawrth

Mor braf yw ailafael yn y gweithgareddau a fu'n rhan o batrwm arferol bywyd cyn Cofid! Mae'n felusach, rwy'n siwr, oherwydd profiadau blin y blynyddoedd diwethaf. Eleni fe gafodd Merched y Wawr Cwm Rhymni gynnal eu cinio Gŵyl Ddewi traddodiadol unwaith eto ar ôl blynyddoedd caeth y Clo. Nid oedd y cinio yn *hollol* draddodiadol, serch hynny: cwrddon ni yng nghanol y mis yn hytrach nag ar y cychwyn, a chynhaliwyd y pryd ym mwyty'r *Casa Mia* yng Nghaerffili. Felly pryd o fwyd Eidalaidd oedd o'n blaen, nid cawl cennin a chig oen!

Er mor dda oedd y bwyd, yr hyn oedd yn rhoi blas i'r bwyd oedd y cwmni, wrth gwrs, ac roedd yn



hyfryd gweld cynifer wedi dod at ei gilydd i'r dathlu, yn enwedig rhai sydd wedi bod yn gaeth i'r tŷ dros y blynyddoedd diwethaf. Doedd dim stop ar y chwedleua! Mawr yw'n diolch i Gaynor am y cyfan - hi sy'n trefnu'r gweithgareddau hyn, ac yn gwneud hynny mor effeithiol, mor drefnus a mor serchus. Rydyn ni'n ffodus iawn o'i chael yn aelod, yn wir, ac i wybod nag yw'r cyfnod clo wedi ei hamddifadu o'i dawn rhyfeddol i drefnu criw anystywallt ac anghofus - a hynny gyda gwên siriol a llond trol o hiwmor hefyd.

Nid Gaynor yw'r unig un sy'n medru ein trefnu, cofiwch. Mae gan Siân (Griffiths) ddoniau tebyg. Hi oedd wedi ein hatgoffa i gofio am y rhai yn ein cymuned sydd angen help gan y Banciau Bwyd. Felly daeth nifer ohonom â bagiau o fwyd a nwyddau angenrheidiol eraill gyda ni i'n cinio. Roedd llond bŵt yng nghar Siân wrth iddi fynd adre, a deallwn fod y Banc Bwyd wedi gwerthfawrogi'n cyfraniadau'n fawr iawn.

Ac er mor ddiflas oedd y cyfnod clo, fe ddaeth pethau da allan o'r tywyllwch a'r unigrwydd. Un o'r pethau hynny - i fi, beth bynnag - yw Zoom. Rwy'n gwybod nag yw Zoom wrth ddant pawb, ac rwy'n derbyn nag yw cystal â chwrdd go iawn - wrth gwrs. OND - ac mae hwn yn "ond" mawr, yn wir - fe ddaw â'r pell yn agos. Trwy gyfrwng Zoom a'r Cynllun Siarad rwy wedi dod yn ffrindiau gydag Elizabeth, sy'n byw yn Hatfield - ie, Hatfield yn Lloegr. Cafodd Elizabeth ei haddysg ym Merthyr Tudful, a dysgodd ymddiddori yn y Gymraeg. Nawr, ar ôl teithio'r byd a dysgu sawl iaith, mae'n cenhadu dros y Gymraeg, a hynny ymhell ochr draw i Glawdd Offa.

Gofynnodd Elizabeth i fi'n ddiweddar a oedd digwydd bod copïau gen i o lyfrau yn y gyfres *Amdani*, sydd wedi ei hysgrifennu ar gyfer dysgwyr. Mae hi'n cwrdd â grŵp o ddysgwyr yn gyson, ac yn awyddus i roi hwb i'r dysgu trwy gyfrwng y gyfres. Wel, doedd dim un o'r llyfrau gen i, ond ro'wn i'n gwybod ble i fynd: ar WhatsApp (un o fendithion eraill y cyfnod clo) i aelodau Merched y Wawr Cwm Rhymni. Ac ar unwaith dyma Lesley yn cynnig hanner dwsin o lyfrau yn y gyfres. Daeth hi â nhw i'n cinio Gŵyl Dewi - a dyma ni yn y cinio, gyda'r llyfrau. Diolch yn fawr i chi, Lesley, am eich parodrwydd i helpu.

Efallai nad cinio traddodiadol oedd hwn, ond pa ffordd well o gofio Dewi na rhannu'n digonedd gyda'r anghenus, a pha ffordd well o ddathlu Cymru na rhannu'r Gymraeg?

# Lewisiaid y Fan

Ewch i waelod Van Road yng Nghaerffili o gyfeiriad y Twyn ac fe ddewch at Ystâd Ddiwydiannol Caerffili ar y dde. Trowch i'r chwith gan gerdded drwy dai newydd Plas Tŷ Mawr ac fe gyrhaeddwch Blasty'r Fan.


Bu sefydliad yma ers y bymthegfed ganrif, a'r adeilad hwnnw ym mhlwyf Bedwas. Mae Gareth Pierce yn dweud bod sôn am y lle mor bell yn ôl â 1415. Ymwelodd yr hynafiaethydd Leland yno tua 1536 ac mae ei dystiolaeth yn dweud tipyn am yr ardal yn ogystal ag am y Fan:

*"In Iscaeach is Caerphilly Castle set among marches, where ruinous walls of a wonderful thickness, and tower kept for prisoners as to the chief hold of Senghenydd......There is within half a mile of Caerphilly by east a fair place called the Van where Mr Edward Lewys dwelleth. Other Gentlemen of any fame be not in all Senghenydd saving David Richard dwelling at Gelligaer in Uwchcaeach and Matthew ap Rees Vychan at Gelligaer parish also."*



Erbyn dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg roedd teulu'r Fan wedi dechrau defnyddio'r cyfenw Lewis, pan ddechreuodd Edward Lewis, mab i Lewis ap Richard, a fu'n gwnstabl Castell Caerffili, ei arddel. Ganol yr unfed ganrif ar bymtheg ychwanegwyd tiroedd Craig yr Allt, Enau'r-glyn a thiroedd yng Nghwm yr Aber at yr ystâd.

Ddiwedd y ganrif honno cafodd y Lewisiaid les ar Gastell Caerffili gan Iarll Penfro, a buont yn defnyddio cerrig o'r castell i ymestyn y plas. (Lle arall a adeiladwyd drwy ddefnyddio'r cerrig hefyd oedd tŷ offeiriad Eglwys Y Santes Helen, er i lawer o bobl eraill ddefnyddio'r deunydd yn answyddogol!) Gyda'r Lewisiaid yn ddisgynyddion Arglwyddi Senghennydd, efallai iddynt fwynhau dadfeilio'r hen gaer fel hyn drwy ddial ar ran Ifor Bach ac eraill! Ond mae tystiolaeth i'r Lewisiaid hefyd gynnal eisteddfodau yn neuadd y plasty, yn wir roedd ganddynt hanes anrhydeddus o noddi beirdd ac iddynt, ar un adeg, gyflogi tiwtoriaid i ddysgu Cymraeg yn ogystal â Ffrangeg a Lladin i'w plant.




*Colomendy Plasty'r Fan*

Dilynodd Edward Lewis arall (1560 - 1623) Thomas Lewis ac fe'u gwnaed yn farchogion gan James I yn 1603. Dyma pryd yr ychwanegwyd tiroedd a chastell Sain Ffagan a thiroedd Gilfach Fargod at yr ystâd. Nawr roedd y teulu yn treulio mwy a mwy o amser yng Nghastell Sain Ffagan.Thomas Lewis, a fu farw yn 1736, oedd y gwryw olaf i etifeddu'r ystâd. Priododd ei ferch Elizabeth ag Iarll Plymouth gan uno rhannau helaeth o ystâd y Lewisiaid ag ystâd Plymouth. A dyma, yn y pen draw, drwy ddod yn dirfeddianwyr mor sylweddol, y llwyddon nhw i elwa cymaint oddi wrth y Chwyldro Diwydiannol yn yr ardal. O deulu Iarll Penfro, yn y pen draw, daeth Ardalyddion Bute, sef perchnogion presennol Cestyll Caerdydd a Chaerffili a llawer iawn o dir yn hen ardaloedd Sir Forgannwg, Sir Fynwy a Dinas Caerdydd.

Gellir gweld y colomendy neu 'Columbarium' enwog sydd yno lle cedwid colomennod ar gyfer eu bwyta yn hytrach na fel adar rasio. Bu'r hen blasty yn adfail am lawer o flynyddoedd a dirywiodd yn fwy dan dywydd gaeaf mawr 1947 ond cafodd ei adfer a'i droi'n gartref moethus iawn. Erbyn hyn mae'n westy a bwyty crand.

# Hanes Hanesydd

Cyfrol sydd bellach wedi bod ar ein silffoedd llyfrau ers 2014 yw "Fy Hanes I", sef hunangofiant John Davies Bwlch-llan. Difyr iawn yw ei fod yn dechrau gydag atgofion am Dreorci, y Rhondda Fawr lle y'i magwyd a lle bu'n byw tan ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal â'i ddisgrifiadau o fywyd yn ystod dyddiau du'r rhyfel, dengys sut y collodd ei genhedlaeth ef, a'r sawl a ddaeth ar eu hôl, eu gafael ar y Gymraeg. A dywed mai'r ysgolion oedd yn bennaf gyfrifol am hyn, yn enwedig wrth i'r faciwîs ddod i'r ardal ac nid yn unig bod arnyn nhw angen addysg drwy gyfrwng yr iaith fain ond hefyd am iddynt ddod â'u hathrawon uniaith gyda nhw.




Ond llwyfan newydd a gwahanol a gawn wedi 1945 wrth i'w fam geisio am swydd athrawes ac yn benderfynol mai yn y Gymraeg y byddai'n arfer ei chrefft. Wrth gwrs, mae 'na wrthgyferbyniad rhwng y cwm glofaol a chefn gwlad Ceredigion, dau fath o dlodi a chyfoeth wrth i ni weld sut y bu tlodi a diffyg cyfleusterau cefn gwlad yn fodd i dynnu cymunedau'n agos at ei gilydd.

Cafodd John ei wrthod gan Brifysgol Caergrawnt ond, wedi disgleirio a chael gradd dosbarth cyntaf o Gaerdydd, cafodd gyfle i fynd yno i Goleg y Drindod i wneud gwaith ymchwil a gweld bod cyfyngiadau ar hyd *thesis* yng Nghaergrawnt a throsglwyddodd i Gaerdydd, lle cafodd ryddid i ymestyn ei ddoethuriaeth ar yr Ardalydd Bute. Cyfarfu â myfyrwyr eraill o bedwar ban byd yng Nghaergrawnt a diddorol darllen ei sylwadau am y myfyrwyr Seisnig: ".. roedd yno lu mawr o fyfyrwyr difflach na fyddai yno oni bai i'w rhieni fod wedi talu iddynt fynychu ysgolion bonedd." Ac yno cyfarfu â Phil Williams a'i gyflwyno yntau ar daith drwy Gymru i Dafydd Wigley, Gwynfor Evans a Harri Webb. Yna, bu'n gefnogol i Blaid Cymru drwy'i oes ac yn un o sylfaenwyr Cymdeithas yr Iaith.

Dywedir mai rhywun cydwladol yw'r gwir genedlaetholwr ac felly mae deall y gŵr unigryw hwn. Bu'n deithiwr brwd hyd yn oed cyn mynd i'r brifysgol gan deithio yn ddiflino gydol ei oes. Mynd ar ei ben ei hun, gyda chyfeillion ac yna â'i holl deulu gan ddangos gwybodaeth gain am gymaint o wledydd, yn enwedig dwyrain Ewrop. Treuliodd amser yn yr India ac America - rhyfedd am un oedd yn casáu hedfan!

Mae hanes ei briodas â Janet hefyd yn ddifyr a'i chefndir hithau, o Frynmawr, yn dystiolaeth nad teithio dramor yn unig a wnâi John gan iddo sicrhau gwybodaeth lwyr o'i wlad ei hun. Dywed am yr uniad, "Yn y blynyddoedd wedi i ni briodi bûm yn dra anystyriol o fuddiannau Janet." Un a ddysgodd y Gymraeg mor llwyr a chyflym.

Mae'r darllenwr yn teimlo i'r byw ei ymateb i Refferendwm 1979. Cymaint oedd ei siom, fel y bu'n ystyried gadael Cymru yn gyfan gwbl. Meddai, "wedi i drwch trigolion Cymru ddatgan yn groyw nad oeddynt yn credu eu bod yn genedl". Ond wnaeth e ddim anobeithio'n llwyr. Dywed John Osmond amdano, "John, yn anad neb, a gadwodd y fflam i fynd yn yr wythdegau pan oedd Thatcheriaeth yn ymddangos yn fuddugoliaethus ym mhob man." Wedyn mae'n mynegi ei orfoledd dros lwyddiant Refferendwm 1997.

Roedd ysgrifennu 'Hanes Cymru' yn dasg anferthol, fel y dywed,"Roeddwn wedi gorffen ysgrifennu ddiwedd 1986 ac roedd gennyf bron chwarter miliwn o eiriau." Bu'n anodd ysgrifennu ag ysgrifbin, heb Bruce, heb Cysill, na phrosesydd geiriau, yn aml yn camdreiglo, yn drysu ynghylch dwy 'n' a dwy 'r' ac wedi ysgrifennu 100,000 o eiriau, gweld nad oedd hanner ffordd drwy ei gampwaith.

Roedd ei 19 mlynedd ym Mhantycelyn yn rhan sylweddol o'i yrfa. Cyfeiria'n fras at y "ddau dywysog" (Siarl a Phillip), pan oedd ymgyrchoedd arwyddion ffyrdd a gwasanaeth teledu yn eu hanterth, ond wedi dwlu ar ddod i adnabod cymaint o fyfyrwyr disglair. Dywed am ymprydio Gwynfor, "Rhyddhad aruthrol i mi oedd llwyddiant y 'tri gŵr doeth' i berswadio'r llywodraeth i lynu at ei pholisi gwreiddiol a chlywed ym mis Medi 1980 fod Gwynfor wedi rhoi'r gorau i'w ympryd."

Daw bwrlwm y bywyd gorlawn hwn i ben yn Nhrelluest yn niddigrwydd bodlon ei deulu a'i wyrion.

***Dinca Fala***

# Pryd syml (iawn) i'r Grawys

Tybed sawl un ohonoch chi, ddarllenwyr y papur hwn, sydd yn cadw'r Grawys? Dyna un arall o hen arferion ein gorffennol Cristnogol yn diflannu'n gyflym iawn y dyddiau hyn. Er ein bod yn dathlu'r Nadolig a'r Pasg o hyd, rwy'n sylwi taw ar gyfer "Gŵyl y Gaeaf" a "Ffair Gwanwyn" mae strydoedd canol y pentref yn cael eu cau yn dyddiau hyn. Mae ein cynghorau lleol yn osgoi geiriau crefyddol eu naws! Ond o gofio bod dathliadau canol gaeaf a chanol gwanwyn yn cael eu cynnal yn y wlad hon ganrifoedd cyn i Gristnogaeth ei chyrraedd, efallai taw nid torri cwys newydd mae'r awdurdodau wedi'r cyfan ond dychwelyd at arferion paganaidd y gorffennol pell cyn Cristnogaeth.



Ac os yw ystyr grefyddol y Nadolig a'r Pasg yn mynd dros gof y dyddiau hyn, pa obaith sydd am y Grawys? Dyna'r cyfnod o ymprydio oedd yn paratoi credinwyr ar gyfer dathliadau prif ŵyl yr eglwys, yn y dyddiau a fu. Trwy ymprydio roeddynt yn efelychu'r deugain diwrnod y treuliodd yr Iesu yn yr anialwch. Roedd disgwyl i gredinwyr ymwrthod â chig o bob math a danteithion hefyd - dyna'r rheswm dros ddefnyddio menyn ac wyau i wneud ffroes (neu grempog) Ddydd Mawrth Ynyd, y diwrnod cyn Dydd Mercher Lludw, diwrnod cyntaf y Grawys. Ni fyddai rhagor o fenyn a siwgr ac wyau i'w blasu o hynny ymlaen tan y Pasg, ond roedd pysgod a llysiau yn dal yn dderbyniol.

Felly, un noson ddiflas ar ddechrau'r Grawys eleni, pan oedd hi wedi tywyllu'n gynnar a'r glaw yn taro yn erbyn y ffenestri, dyma fi'n troi at hen rysait o'r dyddiau pell hynny pan ddechreuais ddysgu sut i goginio, a hynny yng nghwmni ffrindiau coleg. Roedd ein mamau gofalus wedi sicrhau bod pob un ohonom wedi meistroli un pryd syml ond maethlon. Dyma'r rysait a ddaeth gyda Sophie i'n cegin ni - darnau o bysgod gwyn wedi eu digoni mewn saws madarch. Mae hynny'n swnio'n ddigon soffistigedig, ac yn wir yn edrych felly hefyd. Ond yr hyn sy'n syml amdano yw natur y saws: daw o dun o gawl madarch cywasgedig (*condensed*). Y cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yw rhoi darn o bysgod ar gyfer pob person ar waelod dysgl, ac arllwys tun o'r cawl drostynt. Mae pob tun yn ddigon i ddau berson. Rhowch glawr ar y ddysgl a'i roi mewn ffwrn gymhedrol am hanner awr. Gweinwch hwn gyda llysiau berwedig o'ch dewis - a dyna chi, pryd perffaith i'r Grawys, gobeithio.

Gyda llaw, fe weithiff hwn yn iawn hefyd o'i roi yn y popty ping i ddigoni, ond jiw, doedd dim sut beth â meicrodon gyda ni fyfyrwyr 1966. Trueni mawr, o gofio'r trafferthion a gawson ni yn y gegin!


# Caerffili yn ei Blodau 2022



Mwynhaodd Caerffili fwy o lwyddiant yng nghystadleuaeth “Cymru yn ei Blodau” 2022, gan sicrhau’r safle gyntaf a dyfarniad aur yng nghategori Canol Tref. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Nhalgarth, Powys, wedi’r beirniadu yn y dref ym mis Gorffennaf. Roedd hefyd yn dilyn llwyddiant 2021, pan sicrhawyd y safle cyntaf gan drechu Penarth i gyrraedd y brig.

Dyma’r tro cyntaf i Gaerffili ennill y dyfarniad aur yn y digwyddiad blynyddol yma. Wedi’i ariannu gan Gyngor Tref Caerffili, gyda grantiau eraill, gwelwyd ennill Grŵp “Caerffili yn ei Blodau”. Mae’r gystadleuaeth yn golygu addurno canol y dref gyda chafnau o blanhigion a basgedi crog yn ystod misoedd yr haf. Wedi’u cynnwys yng nghais Caerffili oedd arddangosfeydd  gorsaf reilffordd Caerffili, Parc Dafydd Williams, Coffi Vista a Chanolfan Glowyr Caerffili.

# Colofn Dafydd Islwyn



Ddydd Llun, 19eg o Fawrth 1923 bu farw y bardd, Archdderwydd ac Emynydd, Evan Rees, Dyfed. Enillodd ef y Gadair yn y Genedlaethol bedair gwaith. Ym Merthyr yn 1901 yr enillodd ef ei bedwaredd Gadair, ugain mlynedd ar ôl ennill ei Gadair Genedlaethol gyntaf yno. Testun yr awdl oedd 'Y Diwygiwr', awdl heb fod dros wyth can llinell! Erbyn 1923, awdl heb fod dros chwe chan llinell oedd yr amod. Llynedd dau gant pum deg llinell oedd yr uchafswm.

Testun yr awdl yn eisteddfod gydgenedlaethol Ffair y Byd, Chicago 1893, oedd 'Iesu o Nazareth'! Dyfed oedd y bardd buddugol ac enillodd "Gadair dderw gerfiedig, can punt, tlws aur ynghyd â darn o dir rhoddedig gan Fred L. Jones, Washington." Englyn clo yr awdl dwy fil o linellau sy'n taro tant  â ni heddiw:

Trwy fy mai, tro fy mywyd - i linell
Goleuni dy Ysbryd;
A chlod fawr uwchlaw adfyd
Mi ganaf mwy gwyn fy myd.

Cynhaliwyd y Genedlaethol yng Nghaerfyrddin yn 1911 a thestun yr englyn oedd " Dail yr Hydref". Dyfed oedd awdur yr englyn buddugol ac roedd yn falch o'i lwyddiant. Onid oedd wedi rhoi caead ar biser Eifion Wyn a oedd wedi ennill yr englyn dair gwaith ac un gyd-fuddugol unwaith ers dechrau'r ganrif.

Dail yr Hydref
Hydref ddail dorf eiddiledd eiddilaf - su eu trem
Yn sŵn traed y gaeaf;
Treuliant eu horiau olaf
Ar ingol ddôr angladd haf.

Dyfed ydy'r unig Archdderwydd i ennill yr englyn tra yn y swydd. Bu ef yn Archdderwydd Cymru o 1906 hyd ei farwolaeth 1923. Tra yn y swydd Cadeiriodd nifer o'n beirdd amlwg. Cadeiriodd J.J. Williams a T.H. Parry-Williams ddwywaith a T.Gwynne Jones ac R.Williams Parry unwaith. Coronodd Crwys deirgwaith, T.H.Parry-Williams a Wil Ifan ddwywaith a W.J.Gruffydd a Chynan unwaith. Yn bennaf fe gofir mai ef oedd yr Archdderwydd lywiodd seremoni'r Gadair Ddu yn y Genedlaethol yn 1917. Ef a dorrodd y newyddion trist i'r gynulleidfa bod Hedd Wyn, y bardd buddugol, wedi ei ladd yn y Rhyfel Mawr, wythnosau ynghynt ac fe daenodd liain du dros y Gadair.

Heddiw fe gofiwn amdano yn aml fel enillydd. Ceir saith o'i emynau yn Caneuon Ffydd. Yn eu mysg y mae ei emyn cyfarwydd, "I Galfaria Tro Fy Wyneb" a chenir hi ar y dôn Price. Cyfansoddwyd hi gan Daniel Protheroe (1866-1934) ar gyfer Cymanfa Ganu ym Mhontlotyn, mis Mai 1934 ond bu farw'r cyfansoddwr ar y 25ain o Chwefror y flwyddyn honno. Gofynnwyd i'r cerddor John Price, Rhymni, lenwi'r bwlch i arwain y Gymanfa ac fel gwerthfawrogiad enwyd y dôn er ei fwyn.

Nid dyma unig gysylltiad Dyfed â phobol adnabyddus y Pethe yng Nghwm Rhymni. Pan oedd yn dechrau cystadlu yn fardd ieuanc fe'i canmolwyd gan Caledfryn (1801-69), gweinidog yn y Groes-wen a beirniad uchel ei barch. Trwy'r cyfarfodydd llenyddol cystadleuol daeth i gysylltiad ag Islwyn (1832-78) a datblygodd cyfeillgarwch rhwng y ddau. Roedd gan Dyfed feddwl mawr o farddoniaeth y bardd o Gwmfelinfach. Dau o feirdd Rhymni a gadwodd mewn cysylltiad cyfeillgar â Dyfed oedd Osian Gwent (1839-92) a Twynog (1844-1911). Yn 1912 cyhoeddwyd cyfrol goffa i Twynog dan olygiaeth Dyfed. Codai ohoni englyn i Gaws Caerffili -

Caws Caerffili bri ein bröydd - a chaws
Iachusaf y gwledydd,
Caws yr oes, caws yw a rydd
Dwf i'n byd – hufen bwydydd.

Y gair cyrch a'i ail linell yn hysbyseb cofiadwy i'r Caws! Bu Edgar Phillips,
Y Prifardd Trefin (1889-1962) yn deiliwr ym Margod cyn mynd i fyd addysg. Bu'n athro ym Mhontllanfraith o 1923 hyd fis Rhagfyr 1954. Bu'n byw yn Y Coed Duon am flynyddoedd cyn ymuno â'r fyddin ar ddechrau'r Rhyfel Mawr (1914-1918). Bu Trefin yn gweithio yng Nghaerdydd yn ystod y cyfnod hwnnw lle daeth dan ddylanwad Dyfed a'i gosododd ar ben ei ffordd i fod yn Brifardd. Heddiw, fel Dyfed, rhestrir ef ymhlith y saith bardd o Sir Benfro ddaeth yn Brifeirdd y Genedlaethol.

## CLWB CERDD CWM RHYMNI

Rhif Elusen: 1089092

Dydd Sadwrn, 22ain o Ebrill

2:30

Ysgol, Lewis i Ferched, Ystrad Mynach

*Jean-Max Latterman (counter-tenor)& Dylan Perez (piano)*

---

**MERCHED y WAWR**

**PENARTH**

**Ymweliad yng ngofal Nia Parsons**

**Dydd Mercher, 19eg o Ebrill**

**11.00**

**Manylion i Ddilyn**

**Cysylltwch â gaynorw555@gmail.com**

**Croeso i chi ymuno â ni.**

---

Theatr Ddrama Ysgol y Gwyndy

## Gaeaf yn Troi'n Haf

**7:30**

Ebrill 26ain

Oedolion £5 Disgyblion Ysgol £2

---

## Llyfrau'r Enfys

Cysylltwch â Vikki Pearce i archebu llyfrau, cardiau neu CDs.

Defnyddiwch ei ebost: **llyfraurenfys@gmail.com**

neu ffonio ar **07956555265**.

---

# Hanes Cwm Ni

Siaradwr gwadd Mai - Gorffennaf 2023

**Clwb Rygbi Penallta - CF82 7EP - 7pm**

**04/05/23- Dean Powell 'Gwlad y Gân'**
**01/06/23 - Keith Bush 'Cynrychiolaeth Cymru yn y Senedd rhwng y Ddeddf Uno a'r Ddeddf Ddiwygio'**



Croeso cynnes i bawb

Am ragor o fanylion
Joshua.Wheeler@coleggwent.ac.uk

Coleg Gwent

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

Braf oedd cael achos i foduro drwy olygfeydd gwych canolbarth Cymru a chyrraedd y môr a Llety Parc yn Aberystwyth. Yno roeddem i fynychu Cynhadledd Flynyddol Papurau Bro Cymru, y gyntaf ers tair blynedd y Covid. Achlysur sy'n gwahodd cynrychiolwyr o bob un o'r 58 papur bro yng Nghymru.

Peth da oedd cael cymharu ein papur ni yn Sir Caerffili gyda'r nifer o amryw bapurau a arddangoswyd yn Llety Parc. Mae nifer o bapurau yn fwy na 20 tudalen Cwm*ni,* rhai cymaint â 36 tudalen o hyd ac eraill yn llai na ni. Mae'r pris yn amrywio o 50c y rhifyn hyd at £2 a bron pawb yn cyhoeddi o leiaf deg waith bob blwyddyn. Mae'r nifer o gopïau a ddosbarthir yn gallu amrywio o lai na chant hyd at un o 700, a'r rhif hwnnw wedi gostwng o fod dros fil ar un adeg. Dyw cylchrediad y papurau, wrth gwrs, ond yn adlewyrchu lefel Cymreictod eu dalgylch.

Mae pob papur bron yn defnyddio lliw, rhai yn rhannol, eraill yn gyfan gwbl. Ond y cwestiwn a godwyd oedd, ydy cyflwyno papur mewn lliw yn cynyddu'r cylchrediad? Doedd neb yn gallu ateb hyn. Mae nifer o bapurau yn talu cwmni i gysodi'r papur, tra bo eraill yn derbyn y tudalennau wedi'u hargraffu a gwirfoddolwyr wedyn yn eu styffylu at ei gilydd - tipyn o dasg, lle mae cannoedd o gopïau â 36 tudalen ym mhob un! Mae nifer o bapurau, y mwyafrif o bosib, â mwy nag un golygydd. Trefnir hyn drwy i ambell bapur lunio rota o wahanol olygydd bob mis.

Roedd y gynhadledd yn gyfle i godi a gwyntyllu anawsterau. A dyna arwain at brif ofid pawb, sef bod trwch ein darllenwyr erbyn hyn yn heneiddio, am nad yw'r to ifanc yn darllen unrhyw fath o bapur newydd. Ond y gofid mwyaf cyffredin oedd cynnydd mewn costau o ran papur a thanwydd. Mae'r grant a'r tâl wrth werthu yn bell o fod yn ddigon ar gyfer y papurau mwy, a gwelwyd bod llawer o waith codi arian yn digwydd. Sawl un yn cyhoeddi calendr bob blwyddyn i godi arian. Pan ddywedodd un cynrychiolydd bod gan ei bapur Glwb 50, cododd un arall i frolio fod gan ei bapur Glwb 100 ac un arall Glwb 200!! Mae ambell bapur yn llwyddiannus wrth ddenu nawdd am hysbysebu ond roedd hyn yn gallu codi problemau wrth i nifer yr hysbysebion wneud y papur yn rhy swmpus! Ond y newyddion mwyaf calonogol efallai oedd bod ein grant gan y Llywodraeth yn ddiogel o leiaf tan 2025.

Diddorol dysgu fod un papur yn addasu'r cynnwys ar gyfer y deillion wrth i wirfoddolwyr recordio'r cynnwys. Bu i rai o'r papurau roi'r gorau iddi dros y cyfnod clo ond y rhan fwyaf ar fin neu wedi ail-gychwyn. Rhai ohonom wedyn yn dwlu cael gafael mewn copi o bapur ein bro enedigol. Roeddwn i yn gallu hawlio, gydag eraill, ein bod yn gyrru copïau dramor.

Un peth yr oedd gennym ni a neb arall i'w gynnig oedd y ffaith fod gennym draddodiad da o gyhoeddi erthyglau ar hanes lleol. Ac roedd yn bleser cyhoeddi ein bod yn y broses o greu archif o'r erthyglau hyn a fydd o werth i'n hysgolion wrth iddynt ymateb i'r galw i ddysgu hanes eu gwlad i'n plant.

Teithion ni adre yn fodlon o deimlo ein bod wedi dysgu a chyfrannu at y cyfarfod a bod ein papur ni yma yng Nghaerffili cystal ag unrhyw un arall.

Ben a Mary Jones

## Gwarant Archeb Barhaol *Standing Order Mandate*

I'r Rheolwr *To the Manager*

………………………………………. Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/ Building Society*

Debydwch o fy nghyfrif £10.00 ar y 3ydd o fis Mehefin bob blwyddyn gan ddechrau ar y 3ydd o Fehefin 2023 neu nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

*Please debit £10.00 from my account on the 3rd of June annually starting on the 3rd of June 2023 or until I advise you to the contrary.*

Yn daladwy i: *Payable to:*

| Banc | Enw'r Cyfrif | Rhif Didoli | Rhif y Cyfrif |
|---|---|---|---|
| Barclays | Cwm*ni* | 20-98-68 | 13980030 |

Enw(au) ar y Cyfrif *Name(s) on the Account*

| |
|---|
| |

Cod Didoli ___--___ -- ___ *Sort Code*

Rhif y Cyfrif Account Number

Eich Cyfeiriad *Your Address*

……………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………

Cod Post/*Post Code* ……………………………. Rhif Ffôn/ *Phone No* ……………………….

Llofnod/ *Signature:* ……………………………………… …. Dyddiad/*Date:.* ……………………….

Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda, i'r Trysorydd:

Please return to the Treasurer: Meirion Powell, 13 Heol Tyddyn, Caerffili CF83 1TG

NID I'R BANC/NOT TO THE BANK


**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannnol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Trysorydd: Meirion Powell:** mpowell0@yahoo.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Cofnodion:** Ann Lewis

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter Iaith Sir Cwm*ni* Caerffili.cymru/


**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

# Menter Iaith Sir Caerffili

## Digwyddiadau Ebrill 2023










WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU